| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 14 Rhagfyr 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. David Smith<br>Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio |
| **Teitl:** | Cadarnhau dau Orchymyn Cadw Diogelu Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â thir yn ardal Gallt Melyd |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn am Orchymyn Diogelu Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 03/2016 sy'n ymwneud â thir yn Ffordd Hendre, Gallt Melyd (Atodiad I) a Gorchymyn Diogelu Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 04/2016 sy'n ymwneud â thir ym Maes Meurig, Gallt Melyd (Atodiad II).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gwnaeth y Cyngor ddefnydd o bwerau a nodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 201 (Gorchmynion Diogelu Coed dros dro) ar 9 Awst 2016. Mae angen penderfyniad ar fwriad y Cyngor i gadarnhau'r Gorchmynion Diogelu Coed (TPO) uchod, cyn i'r TPO dros dro perthnasol ddod i ben ar ddechrau mis Chwefror 2017.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 03/2016 sy'n ymwneud â thir yn Ffordd Hendre, Gallt Melyd a Gorchymyn Diogelu Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 04/2016 sy'n ymwneud â thir ym Maes Meurig, Gallt Melyd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Gorchmynion Diogelu Coed (TPO) yn gyffredinol yn anelu at ddiogelu coed unigol neu grŵp o goed sy'n cyfrannu at nodweddion y dirwedd, yn darparu amwynder ar gyfer mwynhad y cyhoedd, yn darparu cynefin i fywyd gwyllt lleol, neu oherwydd eu prydferthwch cynhenid. Yn ôl y gyfraith maent yn ei gwneud yn drosedd i dorri lawr, difrigo, tocio, diwreiddio, difrodi'n fwriadol neu'n fwriadol ddinistrio coeden heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

4.2 Oni bai eu bod yn cael eu cadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol, does gan TPO ddim grym. Mae adran 201 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu ar gyfer gwneud Gorchmynion Diogelu Coed dros dro os yw'r coed dan sylw o dan berygl mawr o fod yn destun gwaith niweidiol neu fygythiad o gael ei thorri. Fodd bynnag, mae adran 201 yn nodi y bydd y TPOs dros dro hyn ddim ond yn cael effaith hyd nes

y daw cyfnod o chwe mis i ben sy'n dechrau ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn neu y cafodd y TPO ei gadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol.

4.3 Gwnaeth y Cyngor ddefnydd o'r pwerau a nodir yn adran 201 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar 9 Awst 2016. Mae hynny'n golygu bod y ddau TPO dros dro o ran Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) TPO Rhif 03/2016 a 04/2016 yn colli eu grym ar y 9fed o Chwefror 2017. Os nad yw Aelodau yn cadarnhau unrhyw TPO cyn diwedd y cyfnod o chwe mis, ni fydd y coed a gynhwysir yn y ddau TPO dros dro yn elwa o unrhyw ddiogelwch yn y dyfodol, oni bai bod Gorchymyn Diogelu Coed newydd yn cael ei wneud gan yr awdurdod cynllunio lleol.

4.4 Mae hysbysu a chyhoeddi yn gam sylfaenol yn y weithdrefn ar gyfer gwneud Gorchmynion Diogelu Coed. Roedd rhaid i'r Cyngor dan ddeddfwriaeth ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys tirfeddianwyr a thrigolion lleol a effeithiwyd, gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau am gyfnod o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod hwn i ben ar 14 Medi 2017.

4.5 Derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 12 o sylwadau. Roeddent naill ai'n cyfeirio at un neu'r ddau TPO. Mae Atodiad III yn cynnwys crynodeb. Gellir gweld copïau llawn drwy gysylltu â Chynllunio Strategol a Thai yn Ninbych dros y ffôn [01824 706916] neu drwy e-bost [ldp@denbighshire.gov.uk]. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad ystadegol cryno:

| | Cefnogi | Gwrthwynebu. |
|---|---|---|
| TPO 03/2016 (Ffordd Hendre, Gallt Melyd) | 5 | 1 |
| TPO 04/2016 (Maes Meurig, Gallt Melyd) | 11 | 1 |

4.6 Roedd y ddau wrthwynebiad wedi eu cynnwys mewn un cynrychioliad a gyflwynwyd ar ran perchennog tir a effeithir. Mae'r gwrthwynebiad yn seiliedig yn bennaf ar ddwy goeden a gynhwysir yn TPO 04/2016 sy'n ymwneud â thir ym Maes Meurig, Gallt Melyd. Rhain yw'r coed wedi'u marcio â T11 a T12 ar y map yn Atodiad II.

4.7 **Dwy sail y gwrthwynebiad oedd gwerth amwynder gweledol a phroblemau posibl gyda mynediad i'r safle yn y dyfodol.** Sefydlwyd y gall amwynder gyfeirio at y cyfraniadau mae'r goeden ei wneud tuag at yr amgylchedd lleol a mwynhad y cyhoedd. Dylent hefyd fod o fan cyhoeddus, megis ffordd neu lwybr troed.

4.8 Mae trigolion lleol yn rhoi rhywfaint o werth amwynderol i'r coed hyn fel y mynegwyd yn eu cefnogaeth o TPO rhif 04/2016 ac wrth gysylltu â'r Cyngor ynghylch yr angen brys i'w diogelu rhag difrod bwriadol a chael gwared arnynt yn hydref 2015. Gellir gweld y ddwy goeden o lwybr troed rhif 22 sy'n cael ei gofnodi ar Fap Diffiniol y Cyngor o Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

4.9 Os na chânt eu rheoli a'u cynnal yn ofalus gallai'r ddwy goeden o bosibl gyfyngu ar fynediad at y darn o dir dan sylw. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof nad yw TPOs yn gwahardd torri, dadwreiddio, ac ati, cyn belled y gofynnwyd am ganiatâd ymlaen llaw oddi wrth yr awdurdod cynllunio lleol. Pe bai angen cael gwared ar unrhyw un o'r coed i wneud lle ar gyfer datblygiad yn y dyfodol, gall hyn fod yn rhan o adolygu TPO CSDd rhif 04/2016 a/ neu gael eu hystyried mewn perthynas â chynnig cynllunio manwl.

4.10 **Efallai y bydd y Cyngor yn cadarnhau'r ddau Orchymyn Diogelu Coed naill ai heb addasiad neu'n ddarostyngedig i addasiadau y mae'n ystyried yn hwylus.** Mae swyddogion o'r farn y dylai Aelodau fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd i wneud addasiad perthnasol i TPO CSDd rhif 04/2016, h.y. torri coed gyda'r cyfeirnod T11 a T12.

4.11 Nid yw iawndal yn daladwy i barti a effeithiwyd am wneud TPO. Gall iawndal fod yn daladwy am golled neu ddifrod a achoswyd o ganlyniad iddo wrthod unrhyw ganiatâd o dan Orchymyn; rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau; neu wrthod unrhyw ganiatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan amod am gyfnod o hyd at 12 mis ar ôl dyddiad penderfyniad y Cyngor. Os yw'r Cyngor yn bwriadu cadarnhau'r ddau TPO, gydag addasiadau neu hebddynt, gellir ond ei herio ar sail gwallau gweithdrefnol gan wrthwynebydd yn yr Uchel Lys.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Er nad yw'r penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at unrhyw un o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor, gellir ei gysylltu â 'sicrhau mynediad at dai o ansawdd da' wrth ddarparu amwynder a gwerth adloniadol i drigolion ardal Meliden yn y dyfodol. Bydd yn cefnogi mwynhad cerdded neu feicio ar hyd llwybr troed 22 a'r cynefin bywyd gwyllt mewn caeau cyfagos.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau ar gyfer cadarnhau y ddau Orchymyn Diogelu Coed. Os caiff ei gadarnhau, bydd y ddau TPO yn amod cynllunio perthnasol a rhaid gofyn am ganiatâd i wneud unrhyw waith oddi wrth y tîm Cynllunio / Rheoli Datblygu.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.

7.1 Bydd cadw nifer fach o goed yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at werth amwynder i drigolion yn y dyfodol a'r amgylchedd naturiol yn yr ardal. Mae'r adroddiad llawn ynghlwm yn Atodiad IV.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Roedd rhaid i'r Cyngor dan ddeddfwriaeth ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys tirfeddianwyr a thrigolion lleol a effeithiwyd, gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau am gyfnod o 28 diwrnod. Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad III.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni fydd y Cyngor yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol os bydd yn cadarnhau'r 2 Orchymyn Diogelu Coed ym Maes Meurig, Gallt Melyd, oni bai, wrth gwrs, bod y penderfyniad ei herio ar sail gwallau gweithdrefnol gan wrthwynebydd yn yr Uchel Lys. Yn yr un modd mae risg fach o wynebu hawliad am iawndal o ganlyniad i wrthod

unrhyw ganiatâd sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn ond bydd y risg hon yn cael ei leihau pe byddai'r broses yn cael ei rheoli'n dda gan y Cyngor.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

10.1 Gallai'r Cyngor gael ei herio ar sail gwallau gweithdrefnol yn yr Uchel Lys, yn unol â darpariaeth ddeddfwriaethol.

10.2 Yn union fel unrhyw Orchymyn Diogelu Coed arall, mae risg fach o gael ei wynebu â hawliad am iawndal o ganlyniad i wrthod unrhyw ganiatâd sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn (gweler Erthygl 9 Gorchymyn Model TPO).

10.3 Os na fydd yr Aelodau'n gwneud penderfyniad ar TPO CSDd dros dro rhif 03/2016 a TPO CSDd dros dro rhif 04/2016, bydd y ddau yn colli eu grym ar 9 Chwefror 2017. Bydd hyn yn gadael yr holl goed a gynhwysir heb unrhyw ddiogelwch.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999